# Llywodraeth Cymru Datganiad Meysydd o Ddiddordeb Ymchwil: Materion Economaidd a Chyllidol

Rhagfyr 2025

**Mae'r ddogfen hon yn nodi blaenoriaethau ymchwil Llywodraeth Cymru ar faterion economaidd a chyllidol.**

OGL © Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG53578, ISBN digidol 978-1-80633-745-3
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Datganiad Meysydd o Ddiddordeb Ymchwil: Materion Economaidd a Chyllidol

## 1. Cyflwyniad a Diben

1.1. Mae'r ddogfen Meysydd o Ddiddordeb Ymchwil hon yn crynhoi cwestiynau ymchwil Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â materion economaidd a chyllidol yng Nghymru.

1.2. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i lunio economi fwy ffyniannus a chynaliadwy sydd o fudd i bob unigolyn a chymuned ledled Cymru. Mewn oes sydd wedi'i nodweddu gan ddatganoli cyllidol, trawsnewidiad technolegol, newidiadau demograffig ac ansicrwydd byd-eang, rydym yn ddibynnol ar ymchwil o ansawdd uchel, sy'n benodol i Gymru, i fod yn sail ar gyfer penderfyniadau polisi a buddsoddi.

1.3. Mae'r ddogfen Meysydd o Ddiddordeb Ymchwil hon wedi'i saernïo yn unol â naw thema sy'n cynrychioli'r heriau a'r cyfleoedd economaidd a chyllidol craidd sy'n wynebu Cymru heddiw. Mae pob thema yn cynrychioli maes â blaenoriaeth strategol lle y mae ymchwil a thystiolaeth yn hanfodol fel sail ar gyfer polisïau, buddsoddiadau a chynlluniau hirdymor Llywodraeth Cymru. Cynlluniwyd y themâu i gyflawni'r canlynol:

- Bod yn gydnaws â chyfrifoldebau datganoledig, fel trethi, datblygu economaidd, sgiliau, a thai, lle y mae gan Gymru y pŵer i lunio atebion wedi'u teilwra.
- Mynd i'r afael â heriau cymdeithasol trawsbynciol, gan gynnwys newidiadau demograffig, gwydnwch hinsawdd, ac addasu ar ôl Brexit.
- Sicrhau perthnasedd polisïau, drwy ganolbwyntio ar feysydd lle y gall tystiolaeth gefnogi'n uniongyrchol y broses o wneud penderfyniadau, gwerthuso, a chyflawni Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).
- Hyrwyddo datblygiad sy'n gynhwysol ac yn gynaliadwy, gan gydnabod bod angen twf economaidd sy'n lleihau anghydraddoldebau ac sy'n cryfhau gwydnwch cymunedol.

1.4. Mae'r ddogfen Meysydd o Ddiddordeb Ymchwil hon yn un o nifer sy'n cael eu llunio gan Lywodraeth Cymru. Nid yw'n hollgynhwysol nac yn derfynol. Rydym am iddi ysgogi deialog â'r gymuned ymchwil yn ehangach a bod yn ganllaw i'r meysydd hynny lle y gall ymchwil bellach fod o gymorth i ddatblygu polisïau sy'n barod at y dyfodol yng Nghymru. Byddwn yn adolygu'r ddogfen hon yn flynyddol ac yn ei diweddaru yn ôl yr angen.

1.5. Nid yw'r ddogfen Meysydd o Ddiddordeb Ymchwil hon yn wahoddiad i dendro am gyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer prosiectau ymchwil penodol ar hyn o bryd.

1.6. Rydym yn gwahodd ymchwilwyr, sefydliadau, melinau trafod a phartneriaid i gyfrannu at yr anghenion tystiolaeth hyn ac i ymgysylltu â ni wrth inni lunio atebion polisi arloesol a thrawiadol.

## 2. Thema 1: Datganoli Cyllidol a Chyllid Cyhoeddus

2.1. Wrth i Gymru ymgymryd â rhagor o gyfrifoldeb dros ei chyllid cyhoeddus, rydym yn ceisio ymchwil sy'n dyfnhau'r ddealltwriaeth o sefyllfa a gallu cyllidol Cymru ac sy'n cefnogi datblygiad polisi trethi datganoledig a fframweithiau cyllidebu. Mae'r blaenoriaethau yn cynnwys:

- **Cynllun ac effaith y trethi datganoledig** (ee y Dreth Trafodiadau Tir, y Dreth Gwarediadau Tirlenwi, Cyfraddau Treth Incwm Cymru), gan gynnwys yr effeithiau dosbarthiadol, ymatebion ymddygiadol, a dynameg cystadleuaeth dreth.

- **Pennu rhagolygon refeniw a dadansoddi'r sylfaen drethu**, gan gynnwys modelu incwm aelwydydd, gwerthoedd eiddo, gwaredu gwastraff, a gweithgarwch economaidd ar draws sectorau ac ardaloedd daearyddol yn well.

- **Rhyngweithio â fframwaith cyllidol y DU**, yn enwedig â gweithrediad mecanwaith yr addasiad i'r grant bloc, adnoddau rheoli risgiau cyllidol (ee Cronfa Wrth Gefn Cymru) a goblygiadau'r trefniadau cyllido rhynglywodraethol (ee Fformiwla Barnett).

- **Dadansoddi cynaliadwyedd cyllidol**, gan gynnwys effaith hirdymor newidiadau demograffig, pwysau cyllidol sy'n gysylltiedig â hinsawdd a strategaethau buddsoddi cyhoeddus.

- **Trethi a Gwrth-hiliaeth –** ymchwilio i sut y gall polisïau trethi, a'r modd y cânt eu gweinyddu, fynd i'r afael yn rhagweithiol â hiliaeth systemig a'i ddymchwel, gan sicrhau bod system dreth Cymru wedi'i chynllunio mewn ffordd sy'n cefnogi canlyniadau gwrth-hiliol ledled Cymru, a'i bod yn cael ei gweithredu felly.

## 3. Thema 2: Twf Economaidd, Cynhyrchiant a Datblygu Rhanbarthol

3.1. Mae cryfhau sylfeini economaidd Cymru a gwella perfformiad o ran cynhyrchiant yn ganolog i gyflawni nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Rydym yn ceisio tystiolaeth i fod yn sail ar gyfer polisïau sy'n hyrwyddo twf hirdymor, sy'n gynhwysol ac sy'n cynnal cydbwysedd rhwng y rhanbarthau. Mae'r blaenoriaethau yn cynnwys:

- **Penderfynyddion cynhyrchiant** ar lefelau cwmni a rhanbarthol, gan gynnwys rôl mabwysiadu digidol, defnyddio sgiliau, arloesi, buddsoddi mewn seilwaith a chymorth tyfu busnes.

- **Anghydraddoldebau strwythurol a gofodol**, gan gynnwys bylchau parhaus o ran incwm a chynhyrchiant rhwng y rhanbarthau, ac oddi mewn iddynt, a sut y gall ymyriadau wedi'u targedu fynd i'r afael â'r rhain.

- **Trawsnewid i economi carbon isel a chylchol**, gan gynnwys ymchwil ar strategaeth ddiwydiannol werdd, buddsoddiad sy'n gydnaws â sero net, arloesi mewn ynni glân ac effeithiau datgarboneiddio ar y farchnad lafur.

- **Yr economi sylfaenol**, yn enwedig ymchwil ar wella cynhyrchiant, gwydnwch a gwerth cymunedol sectorau hanfodol fel gofal, bwyd, tai a manwerthu lleol.

- **Yr economi wledig**, yn enwedig ymchwil sy'n astudio cyfleoedd i arallgyfeirio a chryfhau economïau gwledig drwy arloesi, defnyddio tir mewn modd cynaliadwy, diwydiannau gwyrdd, twristiaeth, systemau bwyd lleol a chymorth i fusnesau bach a chanolig a mentrau cymdeithasol.

- **Twf a llesiant economaidd,** gan gynnwys ymchwil ar y berthynas rhwng twf a llesiant economaidd, a pha bolisïau neu ymyriadau all gefnogi gwelliannau o ran y ddau gysyniad hwn.

- **Datblygu economaidd a'r Gymraeg,** gan gynnwys sut y mae'r Gymraeg yn cyfrannu at ddatblygiad economaidd, gan gynnwys ei rôl i gefnogi adfywio rhanbarthol, twf busnesau a chanlyniadau'r farchnad lafur.

## 4. Thema 3: Dynameg y Farchnad Lafur, Sgiliau a Gwaith Teg

4.1. Mae deall tueddiadau'r farchnad lafur ac effeithiolrwydd ymyriadau polisi yn hanfodol i hyrwyddo gwaith teg a chysoni sgiliau mewn economi sy'n newid yn gyflym. Rydym yn croesawu ymchwil ar y canlynol:

- **Tueddiadau o ran cyflogaeth a chyfranogiad**, gan gynnwys gwahaniaethau mewn mynediad a chanlyniadau yn ôl rhywedd, oedran, ethnigrwydd, anabledd ac ardaloedd daearyddol.

- **Effaith awtomatiaeth, deallusrwydd artiffisial (AI) a digidoleiddio** ar rolau swyddi, sectorau, a dadleoli'r gweithlu, yn ogystal â strategaethau ar gyfer ailsgilio ac uwchsgilio.

- **Cyflogaeth ieuenctid, tangyflogaeth**, a'r rhwystrau i sicrhau gwaith o ansawdd uchel, yn enwedig ymhlith y rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET).

- **Strategaethau datblygu'r gweithlu**, gan gynnwys effeithiolrwydd prentisiaethau, llwybrau galwedigaethol, dysgu gydol oes a hyfforddiant dan arweiniad cyflogwyr i fodloni'r anghenion sgiliau presennol ac yn y dyfodol.

- **Ymchwil gwaith teg**, gan gynnwys gweithredu agenda Gwaith Teg Cymru, y cyflog byw, diogelwch swyddi a llais y gweithwyr ym marchnad lafur Cymru.

## 5. Thema 4: Anghydraddoldeb Economaidd, Tlodi a Thwf Cynhwysol

5.1. Mae ergydion economaidd ac anfanteision strwythurol yn golygu bod lefelau parhaus o dlodi ac anghydraddoldeb yng Nghymru wedi'u dwysáu. Rydym yn ceisio ymchwil sy'n astudio'r cysylltiadau rhwng twf economaidd a thlodi, gan gynnwys sut y gall strategaethau twf cynhwysol leihau amddifadedd a helpu i dargedu polisïau perthnasol at y rheini y mae mwyaf o angen arnynt sy'n cynnwys:

- **Mesur a monitro tlodi,** gan gynnwys datblygu dangosyddion cadarn, olrhain tlodi plant a llunio dadansoddiad rhanbarthol o dlodi ac amddifadedd yng Nghymru.

- **Effaith trethi, budd-daliadau lles a gwasanaethau cyhoeddus ar incwm a llesiant aelwydydd**, gan gynnwys modelu micro-efelychu i asesu senarios polisi.

- **Modelau adeiladu cyfoeth cymunedol**, perchnogaeth gydweithredol, cyfranogiad mewn economïau digidol, strategaethau caffael lleol a rôl yr economi gymdeithasol i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb.

## 6. Thema 5: Symudedd Cymdeithasol a Chyfle Economaidd

6.1. Mae gwella symudedd cymdeithasol yn ganolog i adeiladu economi decach a mwy cynhwysol yng Nghymru. Rydym yn croesawu ymchwil sy'n astudio'r ffactorau sy'n rhwystro ac sy'n galluogi symudedd i fyny, yn enwedig i unigolion a chymunedau sy'n wynebu anfantais strwythurol. Mae'r meysydd o ddiddordeb allweddol yn cynnwys:

- **Dadansoddiad hydredol o symudedd cymdeithasol**, gan gynnwys y newidiadau rhwng y gwahanol genedlaethau o ran incwm, addysg, galwedigaeth a chyfoeth ar draws gwahanol ranbarthau a grwpiau demograffig.

- **Ysgogwyr cyfle economaidd**, megis mynediad at addysg, tai, trafnidiaeth, seilwaith digidol a llwybrau cyflogaeth o ansawdd da.

- **Rôl y blynyddoedd cynnar a pholisi addysg**, gan gynnwys effaith y ddarpariaeth gofal plant, cyrhaeddiad yn yr ysgol ac addysg ôl-16 ar gyfleoedd bywyd hirdymor.

- **Symudedd daearyddol ac anfantais sy'n seiliedig ar leoedd**, gan ymchwilio i sut y mae lleoliad yn effeithio ar fynediad at gyfleoedd a sut y gall ymyriadau wedi'u targedu leihau anghydraddoldeb gofodol.

- **Rhwystrau croestoriadol i symudedd**, gan gynnwys yr effeithiau wedi'u dwysáu a gaiff rhywedd, ethnigrwydd, anabledd a chefndir economaidd-gymdeithasol ar ganlyniadau bywyd.

- **Ysgogiadau polisi i hyrwyddo symudedd**, megis strategaethau marchnad lafur cynhwysol, buddsoddiad wedi'i dargedu mewn sgiliau a diwygiadau i'r systemau tai a lles.

## 7. Thema 6: Dosbarthiad Cyfoeth a Throsglwyddiadau Rhwng y Cenedlaethau

7.1. Mae deall dynameg cronni a throsglwyddo cyfoeth yn dod yn fwyfwy pwysig ar gyfer mynd i'r afael ag anghydraddoldeb hirdymor a gwydnwch economaidd yng Nghymru. Rydym yn croesawu ymchwil ar y canlynol:

- **Patrymau dosbarthiad cyfoeth**, gan gynnwys gwahaniaethau o ran perchnogaeth asedau (ee tai, pensiynau, buddsoddiadau ariannol) ar draws grwpiau incwm, rhanbarthau a chenedlaethau.

- **Trosglwyddiadau cyfoeth rhwng y cenedlaethau**, fel etifeddiaeth a rhoddion, a'u heffaith ar symudedd cymdeithasol, mynediad at dai a chanlyniadau economaidd gydol oes.

- **Trethu cyfoeth a throsglwyddiadau**, gan gynnwys effeithiau ymddygiadol a dosbarthiadol treth etifeddiant, trethi eiddo a diwygiadau posibl i gefnogi tegwch a chynaliadwyedd cyllidol.

- **Cyfoeth a llesiant**, gan ymchwilio i sut y mae perchnogaeth asedau yn dylanwadu ar ddiogelwch ariannol, iechyd meddwl, a boddhad â bywyd, yn enwedig yng nghyd-destun yr ergydion economaidd.

- **Ymyriadau polisi i leihau anghydraddoldeb cyfoeth**, gan gynnwys mecanweithiau ar gyfer adeiladu asedau ymhlith aelwydydd incwm isel, modelau perchnogaeth gymunedol a gwasanaethau ariannol cynhwysol.

## 8. Thema 7: Demograffeg, Mudo a Gynlluniwyd a Newid yn y Boblogaeth

8.1. Mae tueddiadau demograffig, gan gynnwys poblogaeth sy'n heneiddio, mudo mewnol a symudedd rhyngwladol yn cyflwyno heriau yn ogystal â chyfleoedd i economi a gwasanaethau cyhoeddus Cymru. Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn ymchwil ar:

- **Rôl mudo a gynlluniwyd** i gefnogi cynaliadwyedd y boblogaeth, gwrthdroi tueddiadau diboblogi (yn enwedig mewn ardaloedd gwledig ac ôl-ddiwydiannol) a bodloni'r prinder sgiliau mewn sectorau allweddol fel iechyd, gofal cymdeithasol, adeiladu a thechnoleg.

- **Effeithiau economaidd a chyllidol mudo**, gan gynnwys cyfraniadau at y refeniw trethi, y galw am dai, y defnydd o wasanaethau cyhoeddus a'r cyfranogiad yn y farchnad lafur.

- **Cadw ac integreiddio mudwyr**, gan gynnwys y rhwystrau i gynhwysiant, anghenion cymorth iaith, cydlyniant cymunedol a mynediad at hawliau a gwasanaethau.

- **Strategaethau i ddenu talent ryngwladol**, yn enwedig yng nghyd-destun cyfyngiadau polisi mewnfudo'r DU gyfan ac anghenion neilltuedig Cymru o ran symudedd llafur a datblygu rhanbarthol.

- **Rhagolygon poblogaeth a modelu**, gan ymgorffori cyfraddau genedigaethau, disgwyliad oes, tueddiadau mudo ynghyd â'u goblygiadau hirdymor ar gyfer tai, trafnidiaeth, addysg a chynllunio iechyd.

## 9. Thema 8: Gwydnwch Economaidd Ar Ôl Brexit ac Ar Ôl y Pandemig

9.1. Mae Cymru yn parhau i addasu i newidiadau strwythurol sy'n deillio o ymadael â'r UE a phandemig COVID-19. Mae gennym ddiddordeb mewn ymchwil sy'n asesu canlyniadau tymor canolig a hirdymor yr aflonyddwch hwn, gan gynnwys:

- **Masnach, buddsoddiad, a mynediad i'r farchnad** ar ôl Brexit, gan gynnwys effeithiau sy'n benodol i sector, cyfleoedd ar gyfer partneriaethau rhyngwladol newydd a newidiadau o ran cydweddiad rheoleiddiol.

- **Ergydion yn y farchnad lafur**, gan gynnwys diwedd symudiad rhydd yr UE a heriau recriwtio mewn sectorau.

- **Gwerthuso mesurau adfer wedi'r pandemig**, gan gynnwys ffyrlo, grantiau cymorth busnes a'u heffeithiau etifeddol ar gynhyrchiant.

- **Gwydnwch cadwyni cyflenwi ac arallgyfeirio economaidd**, gan gynnwys gwendidau rhanbarthol a chyfleoedd i ddychwelyd gweithgynhyrchu neu dwf sy'n seiliedig ar arloesi.

## 10. Thema 9: Data, Modelu a Gwerthuso

10.1. I gyflawni dadansoddiad economaidd a chyllidol o ansawdd uchel, rhaid wrth seilwaith data gwell a thrylwyredd methodolegol. Rydym yn croesawu ymchwil sy'n cryfhau gallu dadansoddol Cymru:

- **Datblygu modelau economaidd sy'n benodol i Gymru**, gan gynnwys modelau cydbwysedd cyffredinol, dulliau micro-efelychu a fframweithiau mewnbwn-allbwn rhanbarthol.

- **Defnyddio data mewn modd arloesol**, megis data trafodiadau amser real, dadansoddiad geo-ofodol, a chysylltiadau â data gweinyddol a mynediad atynt i feithrin dealltwriaeth fwy manwl o bolisïau ac ymyriadau wedi'u targedu.

- **Gwerthuso effaith polisïau**, gan gynnwys dadansoddiad cost a budd, gwerthusiad gwrthffeithiol o effaith a dulliau sy'n seiliedig ar theori ar gyfer rhaglenni cyhoeddus ac ymyriadau cyllidol.

- **Mynd i'r afael â bylchau mewn data**, yn enwedig mewn meysydd polisi datganoledig, ystadegau ardaloedd bach, data'r farchnad lafur wedi'u dadgyfuno ac wrth ddadansoddi yn ôl sector.

## 11. Casgliadau

11.1. Mae Llywodraeth Cymru'n croesawu cyfleoedd i gydweithio ag ymchwilwyr ar unrhyw un o themâu'r Meysydd o Ddiddordeb Ymchwil ac ar faterion economaidd sy'n berthnasol i Lywodraeth Cymru yn fwy cyffredinol. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â: YmchwilEconomaidd@llyw.cymru.